**Dyraniadau Grant Dysgu Proffesiynol 2019-20**
**Cwestiynau Cyffredin**

**1. Beth yw pwrpas y cyllid?**

Prif bwrpas y cyllid yw creu capasiti mewn ysgolion i alluogi ymarferwyr i wneud y newidiadau angenrheidiol cyn y cwricwlwm newydd.

**2. Sut cafodd y cyllid ei ddyrannu?**

Yn ystod 2018/19, dyfarnwyd y grant i ysgolion drwy'r consortia rhanbarthol. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, dyfarnwyd y grant i ysgolion drwy'r awdurdodau lleol. Mae telerau ac amodau'r grant yn datgan y dylid dirprwyo'r cyllid yn ei gyfanrwydd i ysgolion ar sail nifer yr athrawon cyfwerth â llawn amser ar adeg y cyfrifiad dilys diweddaraf.

Mae Ffynhonnell y Data a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r dyraniadau wedi dod o CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion) Ionawr 2018.
Athrawon cyfwerth â llawn amser = cyfrif o athrawon llawn-amser yn ogystal ag athrawon rhan- amser (oriau rhan-amser wedi'u rhannu â 32.5).

Er eglurder, mae'r categorïau athrawon a ganlyn wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad:-
• Penaethiaid
• Penaethiaid Dros Dro
• Dirprwy Benaethiaid
• Penaethiaid Cynorthwyol
• Athrawon Cymwysedig Eraill

**3. Sut ydym ni'n gwybod faint o gyllid a ddyrannwyd i'n hysgol?**

Mae dyraniadau ysgolion unigol wedi'u cyfrifo a'u rhannu gan eich awdurdodau lleol.

**4. A ellir ymgorffori'r arian yn ein Cynllun Gwella Ysgol yn lle cynllun ar wahân?**

Mae telerau ac amodau'r grant yn datgan bod rhaid i ysgolion greu Cynllun Dysgu Proffesiynol i amlinellu sut maent yn bwriadu cefnogi anghenion dysgu proffesiynol pob ymarferwr yn eu hysgol, ac adrodd yn flynyddol yn erbyn y cynlluniau hynny. Rhaid cyhoeddi'r cynllun hwn ar wefan yr ysgol, er hynny, os yw'n bosib adnabod y cyllid yng nghynllun gwella'r ysgol ac os yw'n cael ei gyhoeddi, bydd hyn yn bodloni amodau'r grant. Gallai hwn fod yn atodiad i'ch CDY presennol.

I gefnogi'r ysgolion gyda'r gofyniad hwn, crëwyd templed ac mae ar gael ar G6.

**5. Sut gellir defnyddio'r cyllid?**

Gellir defnyddio'r cyllid i gefnogi'r gwaith o ymgysylltu â'r cynnig dysgu proffesiynol rhanbarthol neu i gefnogi dysgu proffesiynol ar y cyd o fewn ysgolion ac ar draws ysgolion.

Yn unol â hyn, dylid defnyddio'r cyllid i gefnogi meysydd megis:

- Rhyddhau athrawon a chymorthyddion dysgu i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol;
- Talu unigolion, creu rolau a swyddi, cefnogi'r gwaith o gydlynu gweithgareddau dysgu proffesiynol ar draws ysgol neu grŵp o ysgolion. Byddai'r rolau hyn yn cefnogi cydweithwyr, adrannau neu ysgolion cyfan i gynnal gweithgareddau ymholi beirniadol, rheoli newid a gweithgareddau YSD;
- Costau rhyddhau ymarferwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil ac ymholi beirniadol, ariannu amser rhyddhau i ymchwilio i oblygiadau'r cwricwlwm newydd i'w harfer addysgu ac asesu eu hunain;
- Costau rhyddhau ymarferwyr i gydweithio o fewn ysgolion ac ar draws clystyrau a rhwydweithiau o ysgolion – gan gymryd rhan mewn dysgu proffesiynol ar y cyd a chynllunio ar y cyd;
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu rolau megis Hyfforddwr Dysgu Proffesiynol (ar lefel ysgol neu glwstwr)

**6. Beth yw'r amserlen?**

Rhaid i'r cynllun sicrhau bod y grant wedi'i ddyrannu a'i wario'n llwyr erbyn 31 Mawrth 2020. Rhaid rhannu'r cynllun â'ch Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant, ei uwchlwytho ar G6 a'i gyhoeddi ar eich gwefan.

**7. A yw'r grant yn gallu cefnogi pob ymarferwr, h.y. athrawon a chymorthyddion dysgu/cynorthwywyr cymorth dysgu?**

Nid yw'r cyllid wedi'i neilltuo i gefnogi athrawon ac arweinwyr yn unig. Gellir ei ddefnyddio i gefnogi pob ymarferydd sy'n cefnogi addysgu a dysgu yn yr ystafell ddosbarth, gan gynnwys cymorthyddion dysgu/cynorthwywyr cymorth dysgu.

**8. Gyda phwy i gysylltu?**

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y cyllid hwn, cysylltwch â'r canlynol yn y lle cyntaf:

- O ran unrhyw ymholiadau am ddyrannu cyllid a sut y dylech gael gafael arno, cysylltwch â'r tîm cyllid yn eich awdurdod lleol.
- O ran unrhyw ymholiadau am weithgareddau gwario cymwys, monitro a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r gwariant, cysylltwch ag Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant eich ysgol.